# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 23 Hydref 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Sut y mae’r Gweinidog yn bwriadu cysylltu’r 60 ardal ddigyswllt band eang yng Nghymru. (WAQ55014)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Hydref 2009***

Bydd canlyniadau'r ymchwiliad yn y 60 lleoliad hyn yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu'r ardaloedd nesaf i dderbyn cysylltiad band eang a gwneir cyhoeddiad am hyn yn fuan.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa ystyriaeth y mae’r Gweinidog wedi’i rhoi i’r syniad o ddefnyddio’r Cynllun Cefnogi Band Eang Arloesol Rhanbarthol (RIBS) blaenorol i gysylltu’r 60 ardal ddigyswllt yng Nghymru. (WAQ55015)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Tachwedd 2009***

Yn dilyn yr ateb dros dro a dderbynioch i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad (WAQ) 55015, rwyf mewn sefyllfa i roi ateb ichi erbyn hyn.

Eir i’r afael â’r 60 ardal ddigyswllt nesaf a nodir yng Nghymru, gan ddefnyddio’r contract RIBS, ar ôl cwblhau archwiliadau ariannol a thechnegol o’r 6 ardal ddigyswllt a uwchraddiwyd yn gynharach eleni.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa mor hir a gymerwyd i negodi’r Cynllun Cefnogi Band Eang Arloesol Rhanbarthol (RIBS) blaenorol â’r UE. (WAQ55016)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Hydref 2009***

4 mis.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Sut y bydd y Gweinidog yn mesur llwyddiant y prosiect Fibre Speed. (WAQ55017)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Hydref 2009***

Bydd llwyddiant y rhwydwaith FibreSpeed yng Ngogledd Cymru yn cael ei fesur yn nhermau a) ei effaith ar yr economi ranbarthol a b) y gystadleuaeth gynyddol ac ysgogiad yn y farchnad y disgwylir y bydd yn digwydd ar draws yr ardal.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddatblygu prosiect tebyg i Cyfle Cymru. (WAQ55013)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Tachwedd 2009***

Yn dilyn yr ateb dros dro a dderbynioch i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad (WAQ) 55013, rwyf mewn sefyllfa i roi ateb ichi erbyn hyn.

Mae rhaglen eang o gymorth TGCh ac e-fusnes yn cael ei darparu i fusnesau Cymru trwy Gymorth Hyblyg i Fusnes. Nod y rhaglen yw sicrhau bod TGCh yn cael ei defnyddio ar draws yr ystod lawn o

brosesau busnes, ac mae'n datblygu'r gweithgareddau a ddarparwyd o'r blaen drwy Cyfle Cymru a phrosiectau cysylltiedig eraill.